# Cofnod o Gyfarfod 17 Hydref 2018 Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Gwella Trafnidiaeth y Rhanbarth

## Yn bresennol

Llyr Gruffydd AC (yn Cadeirio), Mark Isherwood AC, Sian Gwenllian AC, Darren Millar AC (am ran o'r cyfarfod), Brett John (Swyddfa Llyr Gruffydd AC), Eluned Morgan AC (am ran o'r cyfarfod)
Tim Peppin a Stephen Jones (CLlLC)
Siaradwyr: Dewi Rowlands, Llywodraeth Cymru; Simon Lander, Trafnidiaeth Cymru ac Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
Ymddiheuriadau: Ken Skates AC, Hannah Blythyn AC, Rhun ap Iorwerth AC a Jack Sargeant AC.

## Cyflwyniadau a Thrafodaeth

**Dew Rowlands, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth**

Yn Absenoldeb Ysgrifennydd Y Cabinet, Ken Skates AC, rhoddodd Dewi Rowlands grynodeb o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gwella Trafnidiaeth gyda phwyslais ar gynlluniau penodol ar gyfer Gogledd Cymru.

Cyd-destun Polisi

Mae'n rhaid gweld datblygiad rhanbarthol yng nghyd-destun mentrau cenedlaethol. Mae angen diweddaru'r strategaeth drafnidiaeth genedlaethol a ddiwygiwyd ddiwethaf yn 2008. Mae datblygiadau sylweddol wedi bod ers 2008 gan gynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i ddatgarboneiddio trafnidiaeth cyn gymaint ag y bo hynny'n bosib. Y ddogfen genedlaethol mwyaf cyfoes yw Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2017:
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-12/diweddariad-2017-or-cynllun-cyllid-trafnidiaeth-cenedlaethol_0.pdf

Mae newid mawr yn digwydd ym maes trafnidiaeth: -

- Newidiadau yn y farchnad fysiau
- Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau (rheilffyrdd)
- Technoleg newydd mewn trafnidiaeth a datgarboneiddio
- Ymrwymiad i wella cludiant ar y ffyrdd yng Nghymru

Bysiau

Mae Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar system docynnau integredig ar gyfer bysiau a threnau ar draws Cymru. Mae'r Llywodraeth yn rhoi rhwydwaith fysiau genedlaethol ar waith ac yn

ystyried model newydd mewn darpariaeth bysiau o ganlyniad i fethiant nifer o weithredwyr cludiant annibynnol yn ddiweddar fel sylfaenwyr dadreoledig y farchnad.

Mae’r Llywodraeth yn ystyried papur gwyn a fydd yn ei alluogi i reoleiddio, arwain a chynllunio’r ddarpariaeth o wasanaethau bws (y model a ddefnyddir yn Llundain ac a weinyddir gan Drafnidiaeth Llundain).

Bydd y fasnachfraint reilffyrdd newydd yn galluogi i Drafnidiaeth Cymru gydweithio â darparwyr rheilffyrdd a gweithredwyr bysiau er mwyn sicrhau fod bysiau a trenau yn gweithio â’i gilydd.

Swyddogaeth Trafnidiaeth Cymru

Mae’r Llywodraeth yn dymuno trawsnewid y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus. Trafnidiaeth Cymru fydd yr asiant allweddol dros newid wrth ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus newydd yng Nghymru.

Bydd y Llywodraeth yn cadw ei swyddogaethau o ran llunio polisïau a chynllunio trafnidiaeth lefel-uchel. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi cyngor, yn dylunio a darparu cynlluniau ac yn rheoli a chaffael gwasanaethau. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rheoli gwariant ar drafnidiaeth a chyllidebau sy’n gysylltiedig â gwelliannau cyfalaf a chyflenwad gwasanaethau i’r cyhoedd.

Gwaith partneriaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i wella trafnidiaeth ledled Cymru mewn modd sy’n seiliedig ar bartneriaethau eang.

Mae’r Llywodraeth wedi cydweithio â Growth Track 360 ar y system reilffyrdd.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymgysylltu a Meiri Metro yng Nglannau Merswy a Manceinion Fwyaf. Er budd Canolbarth Cymru mae trafodaethau wedi eu cynnal â Maer Injan Swydd Amwythig a Chanolbarth Lloegr.

Mae grŵp llywio sy’n cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Trafnidiaeth y Gogledd, y Bwrdd Uchelgais a Chynghorau (Gogledd Cymru a rhai cynghorau cyfagos yng Ngogledd Orllewin Lloegr) wedi ei sefydlu er mwyn gwella cysylltedd canolfannau trafnidiaeth (Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, Y Rhyl, Prestatyn, Abergele a Llanelwy, Llandudno a Bae Colwyn, Môn a Menai a Gogledd Môn).

Mae gwaith wedi cychwyn ar rwydwaith drafnidiaeth i wasanaethu Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a datblygiad canolfan drafnidiaeth o amgylch gorsaf drenau a bysiau Wrecsam.

Gwelliannau i’r Ffyrdd

Mae Gogledd Cymru angen gweld buddsoddiad yn ei rhwydwaith cefnffyrdd. Buddsoddiadau allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt yw: -

- Ffordd Osgoi Bontnewydd (Caernarfon)
- Yr A494 (llwybr coch)
- Trydydd pont dros y Fenai

- Gwaith atal llifogydd yn Abergwyngregyn
- Cael gwared ar gylchfannau ar yr A55

Mae rhaglen o welliannau man cyfyng hefyd:
- Cylchfan y Black Cat, Cyffordd Llandudno
- Cyffyrdd 3 – 6 ar yr A483
- A541 ac A525 (Yr Wyddgrug a Rhuthun)
- Gwelliannau De i Ogledd ar hyd goridor yr A470

Mae astudiaeth cydnerthedd ar gyfer yr A55 wedi ei raglennu i'w gyflwyno erbyn 2020.

<u>Rheilffyrdd</u>

Mae'r Llywodraeth wedi ceisio gweithio yn adeiladol ag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU, ac wedi sicrhau ymrwymiad i gyfres o astudiaethau er mwyn gwella'r rhwydwaith lle nas gellir ei drydaneiddio (Caerdydd i Abertawe). Yng Ngogledd Cymru mae hyn yn cynnwys: -
- Gwelliannau i gynhwysedd (ar gyfer gwasanaethau teithio trwodd o Gymru) yng Ngorsaf Caer
- Gwelliannau i wasanaethau a chyflymderau llinell ar gyfer y linell Wrecsam i Bidston
- Gorsafoedd newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac ailfodelu Gorsaf Shotton (cyfnewidfa)

Mae'r Athro Mark Barry yn gweithio ar achosion busnes ar gyfer gwelliannau i'r isadeiledd rheilffyrdd ledled Cymru a fydd yn gofyn am gefnogaeth Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn grediniol fod y gallu i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau Llywodraeth y DU o ran buddsoddi yn hanfodol.

Bydd cronfa sylweddol gan yr Adran Drafnidiaeth tuag at orsafoedd newydd, a bydd cais yn cael ei gyflwyno am arian o'r gronfa hon i Gymru.

Mae Cynghorau wedi derbyn cyllid i wella teithio llesol a theithiau mwy diogel o fewn cymunedau.

**<u>Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</u>**

Gobaith y Bwrdd Uchelgais yw gwella'r cyswllt rhwng cynllunio economaidd a thrafnidiaeth er budd economi a ffyniant y rhanbarth.

Mae llawer o syniadau a chynlluniau sydd angen eu cysylltu i greu un strategaeth gydlynus er mwyn gwella rhwydwaith trafnidiaeth y rhanbarth. Mae angen integreiddio'r meddwl am reilffyrdd, bysiau, teithio llesol a ffyrdd. Mae angen mabwysiadu dull holistaidd o fynd ati i ddatblygu rhwydwaith gynhwysfawr.

Mae Trafnidiaeth Gyhoeddus mewn cyflwr gwael: -
- Nid yw gwasanaethau bws a thrên yn cysylltu
- Gwelwyd dirywiad mewn gwasanaethau bws
- Mae teithio â thrên yng Ngogledd Cymru yn ddrytach na meysydd eraill o fewn y rheilffyrdd a rhanbarthau cyfagos e.e. Merseytravel

- Mae’r gwasanaethau yn seiliedig ar ddisel, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i’r rhaglen ddatgarboneiddio.

Mae cynnydd mewn tagfeydd o ganlyniad i ddefnydd o geir modur preifat a chynnydd mewn cludiant â loriau.

Mae angen sefydlu trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau’r pwysau sydd ar y ffyrdd trwy gynnig opsiynau amgen hyfyw ar gyfer cymudo i’r gwaith. Un o flaenoriaethau’r Bwrdd ac Aelodau Cabinet dros Drafnidiaeth o fewn y Cynghorau yw lleihau defnydd o’r rhwydwaith briffyrdd strategol ar gyfer cymudo i’r gwaith.

Mae’r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ar y rheilffyrdd trwy GT360 a chysyniad Metro Gogledd Cymru trwy gymryd rhan mewn partneriaethau a arweinir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Cynnig Twf yn galluogi: -

- Cynlluniau i gysylltu gwasanaethau trên â rhannu ceir, parcio a theithio, gwasanaethau bws, teithio llesol a datblygiad canolfannau trafnidiaeth integredig.
- Cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer ffurfiau trafnidiaeth sydd wedi eu datgarboneiddio
- Gwasanaethau dros gyfnod yr Haf ar gyfer twristiaid yn seiliedig ar drafnidiaeth wedi ei ddatgarboneiddio.

**Simon Lander, Trafnidiaeth Cymru**

Bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau gwasanaethau a buddsoddiad mewn trafnidiaeth.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi penodi Keolis Amey fel gweithredwr Masnachfraint Cymru a’r Gororau. Bydd Keolis Amey hefyd yn gweithredu fel partner datblygu ar gyfer Metro arfaethedig Gogledd Cymru.

Trafnidiaeth Cymru fydd y brand ar gyfer Masnachfraint Cymru a’r Gororau a’r gorsafoedd o fewn y fasnachfraint honno.

Mae cyflwyniad Simon Lander ynghlwm.

## Trafodaeth

**Sian Gwenllian AC**

Nododd Sian fod y rhan fwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus yn ei hetholaeth hi yn digwydd ar fysiau, ac y byddai felly yn hoffi gweld mwy o flaenoriaeth yn cael ei roi i gynnal a chadw a gwella trafnidiaeth ar fysiau.

Mae Sian yn cefnogi datblygiad modelau darparu a rheoleiddio newydd ar gyfer teithio â bws. Mae’r cyfnod dadreoleiddio wedi dod i ben, gyda 2 weithredwr lleol yn colli eu trwyddedau yn ddiweddar. Mae cyni wedi diddymu gallu'r Cynghorau i gefnogi trafnidiaeth

â bws yn ariannol, ac yn ddelfrydol byddai Llywodraeth Cymru yn ail-alluogi i gynghorau reoleiddio a chomisiynu gwasanaethau.

Mynegodd Sian ei chefnogaeth tuag at fodelau darparu gwasanaeth cymdeithasol a chydweithredol, a chyflwyno tanwyddau newydd megis hydrogen ar gyfer bysiau.

Cefnogodd Llyr Gruffydd yr hyn a ddywedodd Sian trwy nodi na fydd modd i'r sector breifat draddodiadol ddarparu gwasanaethau bws digonol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae angen am ddull newydd o fynd ati.

Ymatebodd Dewi ac Iwan yn gadarnhaol i sylwadau Sian a Llyr: -

- Mae'r Llywodraeth yn dymuno bodloni'r uchelgeisiau a fynegwyd gan yr Aelodau.
- Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ymgymryd â gwaith ymchwil a chynghori ar fodelau newydd ar gyfer fframwaith reoleiddio gwasanaethau bws.
- Bydd gwasanaethau yn cael eu rhedeg fel cynlluniau peilot yn unol â fframweithiau rheoleiddiol a chytundebol newydd.
- Mae cynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau bws a reolir yn gymdeithasol yn Ne-orllewin Cymru sydd yn berthnasol i ardaloedd gwledig Gogledd Cymru.

**<u>Mark Isherwood AC</u>**

Holodd Mark ynghylch y canlynol: -

- Yr ymrwymiad tuag at – a chost – deuoli'r rheilffordd gyfan rhwng Wrecsam a Chaer (ar hyn o bryd, mae rhan byr o drac sengl rhwng Yr Orsedd a Gorsaf Wrecsam wrth groesi'r A483)

- Gallu rhannu tocynnau i gynnwys atyniadau i dwristiaid megis Rheilffordd Llangollen

- A oedd modd cyfuno cyfeiriadau at Fetro Gogledd Ddwyrain Cymru a mentrau tebyg yng Ngogledd Orllewin y rhanbarth i greu un cysyniad ar gyfer Metro Gogledd Cymru?

- A fydd Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar Ddatganiad y Canghellor ar y 29 Hydref 2019 ar gyfer arian i'w fuddsoddi yn y rheilffyrdd?

Ymatebodd Dewi Rowlands ac Iwan Prys Jones: -

- Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cyllid i ddyblu'r linell rhwng Yr Orsedd a Wrecsam yn ogystal â gwaith unioni (o safbwynt achos busnes). Mae dyblu'r linell hefyd wedi ei gynnwys yng nghyflwyniad GT360 i Astudiaeth Coridor Cymru a'r Gorllewin gan Drafnidiaeth Cymru, Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth.

- Byddai dull Metro Gogledd Cymru unigol yn fwy addas i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r cysyniad o deithio di-dor ar hyd a lled y rhanbarth.

- Ar hyn o bryd, nid oes arian wedi ei ddyrannu ar gyfer gwelliannau i reilffyrdd yn CP6. Mae angen i'r Canghellor a'r Adran Drafnidiaeth amlinellu'r modd y bydd ceisiadau gwella rheilffyrdd yn cael eu datblygu a'u hariannu yn y dyfodol. Mae

Cymru yn ymgyrchu am ddyraniad o 11% o’r arian sydd ar gael ar gyfer gwelliannau, gan fod 11% o rwydwaith y DU yng Nghymru.

- Yn sgil cwestiynau Mark, cafwyd hefyd drafodaeth ar ffurfio Corff Trafnidiaeth Gogledd Cymru, gyda phwerau’n cael eu datganoli gan Lywodraeth Cymru ac o bosib, yr Awdurdodau Lleol. Dyma gais am ddatganoliad gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**Tim Peppin**

Holodd Tim ynghylch yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth.

Hysbysodd Iwan Prys Jones a Dewi Rowlands eu bod yn ystyried cynlluniau o fewn y Fargen Twf a fyddai’n galluogi darpariaeth o danwydd carbon isel (Trydan a Hydrogen) wedi ei gynhyrchu o ffynonellau carbon isel.

Bwriad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw creu corff ynni a fyddai’n medru rheoli cynlluniau cyflenwad penodol a rhoi cyngor i grwpiau cymunedol ar gynhyrchu ynni yn lleol.